



## Sut i Apelio i Adran Deulu'r Uchel Lys

Mae'r Daflen hon yn egluro beth y mae angen i chi ei wneud wrth ffeilio apêl yn Adran Deulu'r Uchel Lys ('yr Uchel Lys') er mwyn cydymffurfio â Rhan 30 o'r Rheolau Trefniadaeth Teulu a Chyfarwyddyd Ymarfer 30A sy'n ategu'r Rhan honno.

**Os byddwch yn penderfynu eich bod am apelio rhaid i chi weithredu'n gyflym** – hyn a hyn o amser sydd gennych i gychwyn eich apêl.

### Pethau i'w hystyried cyn apelio

**Yn y rhan fwyaf o achosion bydd angen i chi gael caniatâd barnwr i apelio** ni roddir caniatâd i apelio oni bai fod gan eich apêl obaith gwirioneddol o lwyddo neu bod rheswm da arall dros wrando'r yr apêl. (Rheol 30.3 yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu)

Wrth ystyried a ydych am wneud cais am ganiatâd i apelio, ac wrth gwblhau'r hysbysiad apelydd (**FP161**), cofiwch:

- rhaid i chi sicrhau bod eich apêl yn apêl i Adran Deulu'r Uchel Lys, ac nid i lys arall. Darllenwch y daflen '**Llwybrau Apelio**' (**FP201**) i gael arweiniad. **Nid yw'r ffaith fod Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu wedi derbyn hysbysiad apelydd yn golygu bod yr Uchel Lys yn derbyn awdurdodaeth yn yr achos.**
- ni all staff Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu gynnig unrhyw gymorth i chi wrth i chi baratoi eich achos. Os nad oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol, gallwch gael cymorth gan ganolfan Cyngor ar Bopeth neu gan asiantaethau cyfreithiol eraill.
- os byddwch yn cael caniatâd i apelio, ond bod eich apêl yn aflwyddiannus, mae'n bosibl y gorchmynnir i chi dalu costau'r Atebydd. Byddwch yn wynebu risg debyg os bydd y Llys yn rhoi cyfarwyddyd y dylai unrhyw gais gael ei wrando yn dilyn hysbysiad i'r Atebydd.

- pan fyddwch yn cyflwyno'r hysbysiad apelydd, **rhaid i chi hefyd ddarparu copi o'r gorchymyn** yr ydych am apelio yn ei erbyn. Mae'n bosibl na all Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu dderbyn eich apêl heb y copi hwn.
- gan ddibynnu ar y math o orchymyn yr ydych am apelio yn ei erbyn, hyn a hyn o ddiwrnodau sydd gennych i ffeilio eich apêl. Os ydych yn cyflwyno eich apêl ar ôl y terfyn amser rhaid i chi lenwi adran 10 o'r Hysbysiad Apelydd i wneud cais am estyniad amser. Rhaid i chi egluro'r oedi yn adran 11 a llofnodi'r datganiad gwirionedd.
- dylid cyflwyno'r bwndel o ddogfennau sydd eu hangen yr un pryd â'r hysbysiad apelydd. **PEIDIWCH Â CHYFLWYNO DOGFENNAU YCHWANEGOL ONI BAI FOD Y LLYS WEDI GOFYN AMDANYNT.** Dylid cyflwyno pob dogfen i Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu yn y cyfeiriad isod o fewn y terfynau amser a bennir gan y llys. Bydd y Llys hefyd yn rhoi cyfarwyddiadau i egluro sut y dylid paratoi'r bwndel, a dylech ddilyn y cyfarwyddiadau hyn.
- **y ffi yw £215 i gychwyn apêl neu wneud cais am ganiatâd i apelio neu £50 wrth wneud cais o fewn yr apêl.** Cofiwch: dim ond mewn ychydig o amgylchiadau y caniateir cais i ailagor penderfyniad terfynol ynglŷn ag apêl (gweler y daflen 'Llwybrau Apelio' **(FP201)**). Meddyliwch yn ofalus cyn talu ffi'r llys a fyddwch yn gallu bodloni'r prawf llym hwn ar gyfer rhoi caniatâd.
- Ceir rhestr lawn o'r ffioedd yn nhaflenni **FP200 – 'Ffioedd Achosion Teulu' ac EX50 – 'Ffioedd Llys ar gyfer yr Uchel Lys, y llys sirol a'r llys teulu'**.
- Os ydych yn dychwelyd eich apêl drwy'r post rhaid talu'r ffi ar ffurf siec neu archebion post wedi'u gwneud yn daladwy i GLLTEM, a rhaid i chi roi eich enw a'ch cyfeiriad a theitl yr achos ar gefn y siec neu'r archeb bost a'i chroesi â'r geiriau 'Cyfrif y Talai'.
- Os nad oes gennych lawer o gynilion, neu os nad oes gennych unrhyw gynilion, os ydych yn derbyn budd-daliadau penodol neu os yw eich incwm yn isel, efallai y gallwch gael help i dalu ffi'r llys (a elwir hefyd yn ddileu ffi). I gael rhagor o wybodaeth, neu i wneud cais am help i dalu ffioedd, ewch i [gov.uk/get-help-with-court-fees](http://gov.uk/get-help-with-court-fees). Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd, gallwch gael ffurflen bapur **(EX160 – Gwneud cais am help i dalu ffioedd)** gan staff llys mewn unrhyw swyddfa llys teulu.

## Pryd mae angen i mi gael caniatâd i apelio?

Mewn achosion teulu yn yr Uchel Lys mae angen caniatâd i apelio ar gyfer pob apêl ac eithrio apeliadau yn erbyn:

- gorchymyn traddodi
- gorchymyn llety diogel o dan Adran 25 o Ddeddf Plant 1989.

Os rhoddwyd caniatâd i apelio gan y llys is, neu os nad oes ei angen, rhaid gwneud apêl mewn hysbysiad apelydd (**FP161**). Dilynwch y nodiadau canllaw (**FP161A**) i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon.

Os oes angen caniatâd i apelio a bod caniatâd wedi'i wrthod, neu na wnaethpwyd cais amdano ar ddiwedd y gwrandawriad yn y llys is, rhaid gwneud unrhyw gais am ganiatâd i apelio mewn hysbysiad apelydd (**FP161**) fel uchod.

## Ailagor penderfyniad terfynol unrhyw Apêl

Ni fydd Adran Deulu'r Uchel Lys yn ailagor penderfyniad terfynol unrhyw apêl oni bai:

- Fod angen gwneud hynny er mwyn osgoi anghyfiawnder gwirioneddol;
- Fod yr amgylchiadau'n eithriadol ac yn golygu ei bod yn briodol ailagor yr apêl; ac
- Nad oes rhwymedi effeithiol arall. (Rheol 30.14 yn y Rheolau Trefniadaeth Teulu)

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu rhagor o ffioedd a chostau sylweddol. Meddyliwch yn ofalus a ydych am i'ch cais fynd yn ei flaen. Bydd eisiau i chi fod yn siŵr y byddwch yn gallu bodloni'r prawf anodd y mae'n rhaid i'r Llys ei gymhwyso.

## Terfynau amser

Rhaid i chi ffeilio eich hysbysiad apelydd:

- o fewn y terfyn amser a bennwyd gan y barnwr a wnaeth y penderfyniad neu'r gorchymyn yr ydych yn apelio yn ei erbyn; neu
- os nad yw'r barnwr hwnnw wedi pennu terfyn amser, ond bod yr apêl yn erbyn penderfyniad rheoli achos, cyn pen 7 niwrnod ar ôl y dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn, (nid dyddiad selio'r gorchymyn); neu
- ym mhob achos arall lle nad yw'r barnwr hwnnw wedi pennu terfyn amser, cyn pen 21 diwrnod ar ôl y dyddiad y gwnaethpwyd y penderfyniad neu'r gorchymyn yr ydych yn dymuno apelio yn ei erbyn (nid dyddiad selio'r gorchymyn).

## Bwndel o ddogfennau

Bydd angen i chi ddechrau paratoi bwndel eich apêl a rhoi trefn ar unrhyw drawsgrifiadau a/neu ddyfarniad ar unwaith.

Bydd y llys yn gwneud cyfarwyddiadau i ddweud wrthyfych sut y dylech baratoi'r bwndel a sut y dylid ei ffeilio yn y llys fel bod modd ei ddefnyddio yn yr achos. Dylid cyflwyno'r un bwndel hefyd i bob atebdydd yn yr apêl. Bydd y barnwr hefyd yn gwneud cyfarwyddiadau yn ymwneud â phryd y dylech gyflwyno'r bwndel i bob atebdydd.

**Gallai peidio â chydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys olygu bod eich apêl yn cael ei dal yn ôl ('atal') neu ei gwrthod ('dileu').**

## Trawsgrifiadau ar draul y cyhoedd

Os yw'r llys is neu'r llys apêl yn fodlon bod apelydd nad oes ganddo gynrychiolydd mewn amgylchiadau ariannol mor wael fel y byddai cost trawsgrifiad yn faich gormodol, gall y llys ardystio y dylai'r cyhoedd ysgwyddo'r gost o gael y trawsgrifiad swyddogol. Lle bo modd, dylid gwneud cais am drawsgrifiad ar draul y cyhoedd i'r llys is wrth ofyn am ganiatâd i apelio.

Mewn cais am drawsgrifiad swyddogol o dystiolaeth mewn achos y telir amdano gan y cyhoedd, rhaid i'r llys hefyd fod yn fodlon bod seiliau rhesymol dros apelio. Nid oes angen trawsgrifiadau o dystiolaeth fel arfer ar gyfer cais am ganiatâd i apelio. O ganlyniad, yn anaml iawn y caniateir trawsgrifiadau o dystiolaeth ar draul y cyhoedd yn y cam caniatâd.

Os oes angen i chi wneud cais am drawsgrifiad llys ar draul y cyhoedd rhaid i chi lenwi ffurflen. Dylech anfon y ffurflen hon i Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu gyda'ch hysbysiad apelydd (**EX105**), a dylent gael eu ffeilio yr un pryd er mwyn osgoi oedi yn yr achos. Os ydych wedi bod yn llwyddiannus â'ch cais am help i dalu ffioedd, nid yw hyn yn golygu y byddwch yn cael trawsgrifiad llys a/neu ddyfarniad ar draul y cyhoedd yn awtomatig.

**Gallai peidio â darparu copi o'r dyfarniad a/neu drawsgrifiad swyddogol o dystiolaeth o'r achos olygu bod eich apêl yn cael ei dal yn ôl ('atal') neu ei gwrthod ('dileu').**

## Ymdrin ag unrhyw gais am ganiatâd i apelio

Os yw eich hysbysiad apelydd yn cynnwys cais am ganiatâd i apelio, bydd y papurau'n cael eu trosglwyddo i farnwr. Gall y barnwr ystyried eich cais heb i chi orfod mynd i wrandawriad. Anfonir gorchymyn atoch yn amlinellu penderfyniad y barnwr, neu gall y llys benderfynu gwrandao eich cais mewn llys, ac os hynny, byddwch yn cael eich hysbysu am unrhyw wrandawriad.

Os bydd eich cais yn cael ei wrando mewn llys, fel arfer byddwch yn cael hyn a hyn o amser i egluro wrth y llys pam yr ydych yn credu y dylid rhoi caniatâd i apelio.

## Cynadleddau fideo

Mae gan y Llys gyfarpar sy'n ei alluogi i gynnal gwrandawiau gyda phartion mewn canolfannau pell megis llysoedd rhanbarthol. Bwriedir defnyddio cynadleddau fideo ar gyfer ceisiadau am ganiatâd i apelio a cheisiadau byr eraill. Mae angen cael caniatâd y Llys i wrando ar achos drwy gynhadledd fideo a dylai partion sy'n dymuno gwneud hynny gysylltu â Swyddfa Apeliadau'r Adran Deulu. Mae protocol cynadleddau fideo llawn, sy'n amlinellu'r gweithdrefnau a'r gofynion ar gael o'r cyfeiriad hwn.

## Rhoi caniatâd yn rhannol

Dylech nodi y bydd barnwr ambell waith yn rhoi caniatâd i apelio ynglŷn â rhai materion yn unig. Byddwch yn cael gwybod beth yw'r rhain. Rhaid i chi gael caniatâd y llys apêl os ydych am godi unrhyw fater sydd wedi'i wrthod yn benodol yng ngwrandawiad yr apêl. Os ydych yn dymuno gofyn am ganiatâd y llys apêl, rhaid i chi wneud hynny cyn gynted ag y bo modd ar ôl i chi dderbyn yr hysbysiad ynglŷn â'r penderfyniad i roi caniatâd cyfyngedig yn unig. Rhaid i chi, yr un pryd, roi gwybod i'r atebydd beth yr ydych yn bwriadu ei wneud. Ymdrinnir â'ch cais ar ddechrau gwrandawiad yr apêl fel rheol oni bai fod y llys yn dweud yn wahanol.

## Gwrthod caniatâd

Os bydd y barnwr yn gwrthod rhoi caniatâd i chi apelio heb wrandawiad, gallwch ofyn iddo ailystyried y penderfyniad hwnnw mewn gwrandawiad llafar. Gallai'r gwrandawiad fod gerbron yr un barnwr. Rhaid i chi anfon eich cais am wrandawiad llafar i'r llys apêl cyn pen 7 niwrnod ar ôl y dyddiad yr ydych yn derbyn hysbysiad bod caniatâd wedi'i wrthod. Rhaid i chi, yr un pryd, anfon copi o'ch cais at unrhyw atebwyr.

Os byddwch yn gwneud cais am wrandawiad llafar, bydd y llys yn anfon nodyn atoch yn eich hysbysu ynglŷn â dyddiad y gwrandawiad. Fel rheol dim ond 20 munud a roddir i chi i egluro wrth y llys pam yr ydych yn credu y dylid rhoi caniatâd i apelio.

Os bydd y barnwr yn gwrthod rhoi caniatâd i chi apelio mewn gwrandawiad llafar nid oes hawl bellach i apelio yn dilyn y penderfyniad hwnnw i unrhyw lys.

## Caniatâd wedi'i roi, neu nid oes angen caniatâd

Os ydych wedi cael caniatâd i apelio, neu os nad oes angen caniatâd, bydd y llys yn anfon nodyn atoch yn eich hysbysu ynglŷn â'r dyddiad ar gyfer gwrandawiad eich apêl neu'r cyfnod (y 'ffenestr rhestru') pan mae'r apêl yn debygol o gael ei gwrandao. Bydd hefyd yn dweud wrthy ch beth mae angen i chi ei wneud nesaf.

## Ymdrin ag unrhyw geisiadau eraill yr ydych wedi eu gwneud

Os gwnaethoch geisiadau eraill yn eich hysbysiad apelydd, er enghraifft ar gyfer gorchymyn yn atal y parti arall rhag gorfodi gorchymyn y llys is, gall y llys naill ai ymdrin â'r rhain yr un pryd â'ch cais am ganiatâd i apelio, neu mewn gwrandawriad arall, ar wahân, cyn gwrandawriad eich apêl. Byddwch yn cael gwybod beth yw amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawriad.

Y cyfeiriad y dylid anfon pob dogfen iddo yw:

The Family Division Appeals Office  
Floor 1M  
Queen's Building  
Royal Courts of Justice  
Strand  
Llundain  
WC2A 2LL

DX 44450 Strand

**Ebost:** [appeals.familydivision@hmcts.gsi.gov.uk](mailto:appeals.familydivision@hmcts.gsi.gov.uk)

**Ffôn:** 020 7947 7192